
Dal y BBC i gyfrif am gyflawni ar gyfer cynulleidfaedd

Mesurau Perfformiad

Cynnwys

Adran

- | | |
|---|---|
| 1. Gweithdrefnau ac ystyriaethau ar gyfer gosod a diwygio'r mesurau perfformiad | 1 |
| 2. Fframwaith Mesur Perfformiad | 4 |

1. Gweithdrefnau ac ystyriaethau ar gyfer gosod a diwygio'r mesurau perfformiad

Cyflwyniad

- 1.1 O dan y Siarter Brenhinol¹ a'r cytundeb rhwng yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a'r BBC (y "**Cytundeb**") a gyhoeddwyd gan y Llywodraeth ar 15 Rhagfyr 2016, caiff Ofcom bennu mesurau (ar ben y rheini a bennir gan y BBC) mae Ofcom yn credu sy'n briodol i asesu llwyddiant y BBC o ran cyflawni'r Genhadaeth a hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus² fel y nodir yn y Siarter Brenhinol³ a'r cytundeb rhwng yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a'r BBC (y "**Cytundeb**") a gyhoeddwyd gan y Llywodraeth ar 15 Rhagfyr 2016.⁴
- 1.2 Mae'r ddogfen hon yn rhan o Fframwaith Gweithredu'r BBC. Mae'n nodi sut bydd Ofcom yn gosod ac yn diwygio'r mesurau perfformiad a'r gweithdrefnau y bydd yn rhaid eu dilyn.⁵

Sut bydd Ofcom yn gosod ac yn diwygio mesurau perfformiad

- 1.3 Wrth osod a diwygio mesurau perfformiad, bydd Ofcom yn defnyddio'r fframwaith cyfreithiol perthnasol.
- 1.4 Mae Ofcom yn gorfforaeth statudol sydd wedi cael ei chreu gan Ddeddf Swyddfa Gyfathrebiadau 2002.
- 1.5 Daw pŵer Ofcom i reoleiddio'r BBC o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003, sy'n datgan er mwyn rheoleiddio'r BBC y bydd gennym bwerau a dyletswyddau a roddir i ni gan neu dan y Siarter a'r Cytundeb⁶. Mae ein dyletswyddau cyffredinol o dan adran 3 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 yn berthnasol i arfer ein swyddogaethau mewn perthynas â'r BBC⁷. Mae dyletswyddau adran 3 Ofcom yn cynnwys ei brif ddyletswydd sef hyrwyddo buddiannau dinasyddion yng nghyswllt materion yn ymwneud â chyfathrebiadau a hyrwyddo buddiannau defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol, drwy hybu cystadleuaeth lle bo hynny'n briodol⁸.
- 1.6 Mae dyletswyddau adran 3 Ofcom hefyd yn cynnwys gofyniad ar Ofcom i ystyried, ym mhob achos, yr egwyddorion sy'n datgan y dylai gweithgareddau rheoleiddio fod yn

¹ Y Siarter Brenhinol ar gyfer parhad y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig' (y "**Siarter**"), sydd ar gael yn <https://www.gov.uk/government/publications/bbc-charter-and-framework-agreement>

² Erthygl 46(4) o'r Siarter; a Chymal 14(1) o'r Cytundeb.

³ Y Siarter Brenhinol ar gyfer parhad y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig' (y "**Siarter**"), sydd ar gael yn <https://www.gov.uk/government/publications/bbc-charter-and-framework-agreement>

⁴ Erthygl 20(3)(d) o'r Siarter.

⁵ Fel sy'n ofynnol o dan Gymal 15(3) o'r Cytundeb

⁶ Adran 198 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003.

⁷ Erthygl 45(1) o'r Siarter.

⁸ Adran 3(1) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003.

dryloyw, yn atebol, yn gymesur, yn gyson ac wedi'u targedu dim ond at achosion lle mae angen gweithredu ac unrhyw egwyddorion eraill sy'n ymddangos i Ofcom fel rhai sy'n cynrychioli'r ymarfer rheoleiddio gorau⁹.

- 1.7 Mae Erthygl 45(2) o'r Siarter yn darparu ei bod yn rhaid i Ofcom ystyried, wrth gynnal ei swyddogaethau, y canlynol fel sy'n ymddangos i ni sy'n berthnasol yn yr amgylchiadau:
 - 1.7.1 amcan y BBC sef cyflawni ei Genhadaeth a hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus;
 - 1.7.2 pa mor ddymunol ydy diogelu cystadleuaeth deg ac effeithiol yn y Deyrnas Unedig;
 - 1.7.3 y gofyniad i'r BBC gydymffurfio â'i ddyletswydd o dan y Siarter, gan gynnwys ei ddyletswyddau cyffredinol.
- 1.8 Mae Erthygl 46 o'r Siarter (Prif swyddogaethau Ofcom) yn pennu y caiff Ofcom benderfynu ar fesurau (ar ben y rheini sy'n cael eu pennu gan y BBC o dan erthygl 20(3)(d) (prif swyddogaethau'r Bwrdd)) mae Ofcom yn credu sy'n briodol er mwyn asesu perfformiad Gwasanaethau Cyhoeddus yn y DU wrth gyflawni'r Genhadaeth a hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus¹⁰.
- 1.9 Mae Erthygl 20(3)(d) o'r Siarter yn darparu ei bod yn rhaid i Fwrdd y BBC sicrhau bod y BBC yn cyflawni ei Genhadaeth ac yn hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus drwy, yn benodol, osod fframwaith er mwyn asesu perfformiad y BBC wrth iddo gyflawni ei strategaethau a'i gylch gwaith creadigol, a dyletswyddau o dan y Siarter a'r Cytundeb, gan gynnwys mesurau perfformiad (a thargedau ar gyfer y mesurau hynny pan fo'n briodol) i asesu perfformiad Gwasanaethau Cyhoeddus yn y DU o ran cyflawni'r genhadaeth a hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus).
- 1.10 Wrth lunio mesurau perfformiad sy'n ychwanegol i'r rheini a fydd yn cael eu llunio gan y BBC, bydd Ofcom yn ystyried y mesurau perfformiad sydd wedi cael eu llunio gan y BBC.

Gweithdrefn

- 1.11 Cyn penderfynu ar bob mesur perfformiad, rhaid i BBC ac Ofcom ill dau ymgynghori â'i gilydd ac â unrhyw un maen nhw'n meddwl sy'n briodol¹¹.
- 1.12 Pan fydd Ofcom yn ymgynghori ar osod neu ddiwygio mesurau perfformiad, bydd Ofcom yn gwneud hynny gan gydymffurfio â'i Egwyddorion Ymgynghori.¹² Yn benodol, bydd Ofcom yn glir ynghylch pwy mae'n ymgynghori â hwy, pam, ar ba gwestiynau ac am ba hyd.
- 1.13 Bydd Ofcom yn caniatáu cyfnod rhesymol i bobl gyflwyno ymatebion i ymgynghoriad. Bydd Ofcom yn asesu'r hyn sy'n rhesymol yng ngoleuni natur ac arwyddocâd y cynnig, gan ystyried ei Egwyddorion Ymgynghori.

⁹ Adran 3(3) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003.

¹⁰ Erthygl 46(4) o'r Siarter.

¹¹ Cymal 14(3) o'r Cytundeb.

¹² <https://www.ofcom.org.uk/cymru/consultations-and-statements/how-will-ofcom-consult>

- 1.14 Os bydd Ofcom yn credu bod angen rhagor o wybodaeth arno cyn penderfynu a ddylid gosod neu ddiwygio mesurau perfformiad, boed hynny gan y BBC neu gan berson arall, bydd Ofcom yn gofyn am y wybodaeth honno cyn gwneud penderfyniad. Mae'r Siarter yn rhoi pwerau casglu gwybodaeth i Ofcom mewn perthynas â'i swyddogaethau o dan y Siarter a'r Cytundeb.¹³
- 1.15 Bydd Ofcom yn penderfynu ar fesurau perfformiad ar ôl ystyried yr holl safbwyntiau a gwybodaeth a fydd wedi cael eu rhoi. Bydd Ofcom yn cyhoeddi'r mesurau perfformiad ar ei wefan.
- 1.16 Efallai y bydd Ofcom yn gofyn i'r BBC gasglu gwybodaeth o'r fath fel mae Ofcom yn credu sy'n angenrheidiol ar gyfer y mesurau perfformiad¹⁴.
- 1.17 Rhaid i'r BBC ac Ofcom gyhoeddi'r mesurau perfformiad o leiaf bob blwyddyn a thystiolaeth am berfformiad yn erbyn y mesurau hynny¹⁵. Bydd Ofcom wedyn yn cyhoeddi'r wybodaeth yma ar ei wefan.

¹³ Erthygl 47 o'r Siarter.

¹⁴ Cymal 14(4) o'r Cytundeb.

¹⁵ Cymal 14(5) o'r Cytundeb.

2. Fframwaith Mesur Perfformiad

- 2.1 Wrth gwblhau ein framwaith mesur perfformiad, rydym wedi ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad, a chynlluniau'r BBC i fesur ei berfformiad ei hun. Mae ein fframwaith terfynol hefyd wedi ei osod yn unol â'r gweithdrefnau rydyn ni wedi'u rhoi ar waith yn y Fframwaith Gweithredu ar gyfer pennu'r mesurau perfformiad.
- 2.2 Mae ein fframwaith mesur perfformiad yn cynnwys pedwar mesur perfformiad a set o egwyddorion y byddwn yn eu hystyried wrth ddefnyddio'r mesurau perfformiad. Rydyn ni hefyd wedi pennu set sylfaenol o fetrigau data a ffynonellau y byddwn ni'n eu defnyddio fel tystiolaeth ar gyfer perfformiad y BBC yn erbyn y mesurau rydyn ni wedi'u nodi. Mae'n bosib y byddwn ni'n cynnwys metrigau data a ffynonellau ychwanegol at hyn o bryd i'w gilydd, er mwyn ystyried ffactorau cyd-destunol.
- 2.3 Dyma'r pedwar mesur perfformiad:
- Argaeledd:** sy'n disgrifio'r gwariant ar, natur, math, swm ac ystod y cynnwys sydd ar gael ar draws y BBC. Mae hwn yn gategori 'gwaelodlin' sy'n helpu i greu dealltwriaeth gadarn o natur y cynnwys sy'n cael ei ddarparu gan y BBC.
 - Defnyddio:** sy'n monitro i ba raddau y mae cynulleidfaoedd yn defnyddio'r cynnwys sy'n cael ei ddarparu gan y BBC. Mae'r categori yma'n rhoi golwg gyffredinol ar gyrhaeddiad cynnwys a'r amser sy'n cael ei dreulio'n defnyddio cynnwys y BBC, yn ôl gwasanaeth, llwyfan neu ar draws llwyfannau.
 - Effaith:** sy'n edrych yn fanwl ar beth mae cynulleidfaoedd yn ei feddwl am wasanaethau ac allbwn y BBC, gan gynnwys pa mor fodlon ydyn nhw gyda gwahanol agweddau ar ddulliau hyrwyddo dibenion cyhoeddus y BBC.
 - Ffactorau cyd-destunol.** Mae rhai agweddau o bob diben cyhoeddus nad oes modd eu mesur dim ond drwy'r mesurau uchod. Er enghraifft, byddai unrhyw asesiad o record y BBC o ran cymryd risgiau creadigol a darparu cynnwys arloesol yn elwa o ystyried dadansoddiad ychwanegol sy'n cael ei ddarparu gan y BBC, neu farn rhanddeiliaid yn y diwydiant. Gall ffactorau cyd-destunol eraill amrywio o flwyddyn i flwyddyn. Rydym yn rhoi enghreifftiau o'r math o dystiolaeth efallai bydd angen arnom sy'n gysylltiedig â'r mesur perfformiad hwn ym mharagraff 2.7.
- 2.4 Mae ein hegwyddorion craidd, a fydd yn arwain y ffordd rydyn ni'n defnyddio ein mesurau perfformiad, wedi'u nodi yn Ffigur A4.1.

Ffigur A4.1 Egwyddorion craidd y fframwaith mesur perfformiad

	Disgrifiad
Hyblygrwydd	Byddwn yn defnyddio dull gweithredu hyblyg gyda'r metrigau sy'n gysylltiedig â'r mesurau perfformiad. Byddwn yn cynhyrchu gwybodaeth tracio sylfaenol ar allbwn, gwariant, defnydd ac effaith bob blwyddyn. Bydd lefel ein hasesiad y tu hwnt i hyn yn amrywio o un flwyddyn i'r llall. Efallai y byddai'n well cynnal asesiad manylach o gyflawni yn ôl diben cyhoeddus penodol yn llai aml er mwyn lleihau'r costau, bod yn gymesur a bod yn seiliedig ar ystod ddigonol o ddata perthnasol.
Cymesuredd	Wrth fesur grwpiau cynulleidfa gwahanol, byddwn yn defnyddio dull gweithredu cymesur sy'n sicrhau cydbwysedd rhwng y dymuniad i ddeall is-grwpiau annibynnol ag ymarferoldeb a chost gwneud hynny. Byddwn yn casglu tystiolaeth am y BBC yn gyffredinol, a data sy'n benodol i wasanaethau pan fo hynny'n ymarferol ac yn arwain at wybodaeth. Fyddwn ni ddim yn mesur pob agwedd o bob diben cyhoeddus yn drwyadl yn erbyn pob gwasanaeth, pob cynulleidfa neu bob rhan o'r dydd.
Ymarferoldeb	Byddwn yn sicrhau bod yr hyn rydyn ni'n ceisio ei fesur yn feintioledig yn gallu cael ei fesur mewn ffordd o'r fath yn realistig ac yn wrthrychol. Byddwn yn ystyried ffyrdd ansoddol amgen, ar sail ad hoc, er mwyn deall perfformiad yn yr achosion hynny lle mae hi'n arbennig o anodd lleihau i fetrig mesuradwy.
Tryloywder	Rydyn ni'n credu y dylai fod yn glir ac yn syml deall y metrigau a fydd yn gysylltiedig â phob mesur.
Dibynadwyedd/Cadernid	Yn achos ymchwil ymysg cynulleidfaoedd, dylai'r offer mesur fod o faint digon mawr i allu edrych ar farn is-grwpiau penodol dros amser, pan fo hynny'n ymarferol.
Cymaroldeb	Pan fo hynny'n briodol a phan fydd y wybodaeth ar gael, byddwn yn meincnodi darpariaeth y BBC yn erbyn gwasanaethau a chynnwys ar-lein/darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus/sector masnachol eraill.

Mae Ffigur A4.2 yn rhoi crynodeb o'r prif ffynonellau data y byddwn ni'n eu defnyddio i fonitro sut mae'r BBC yn cyflawni ei genhadaeth ac yn hyrwyddo'r dibenion cyhoeddus dros gyfnod y siarter. Bydd rhywfaint o ffynonellau data ac is-grwpiau cynulleidfa yn cael eu defnyddio fel rhan o'n mesurau perfformiad blynyddol, a bydd eraill yn cael eu defnyddio ar sail ad hoc. Dylid nodi, nad ydy ein hasesiad cyffredinol o sut mae pob diben cyhoeddus yn cael ei gyflawni yn dibynnu ar unrhyw ffynhonnell ddata unigol. Dydy'r rhestr hon ddim yn gyflawn, ac mae'n bosib y bydd yn newid dros amser. Er enghraifft, mewn ymateb i newidiadau mewn anghenion a chwaethau cynulleidfaoedd a fydd yn cael eu datgelu drwy ein hymchwil cynulleidfaoedd annibynnol. Bydd y pwyslais sy'n cael ei roi ar bob un o'r ffynonellau data ac ar bob un o'r categorïau, sef argaeledd, defnyddio, effaith a ffactorau cyd-destunol yn amrywio yn ôl diben cyhoeddus, ac yn ystyried egwyddorion craidd ein fframwaith mesur perfformiad.

2.5 Ffigur A4.2 Ffynonellau data sy'n berthnasol i'r fframwaith mesur perfformiad

	Ffynhonnell y Data	Rhagor o Wybodaeth
Argaeledd	Allbwn y BBC	Data sy'n cael ei ddarparu gan y BBC sy'n dangos lefelau ac amrywiaeth yr allbwn ar draws gwasanaethau'r BBC.
	Gwariant y BBC ar gynnwys	Data ariannol sy'n cael ei ddarparu gan y BBC sy'n dangos y lefelau buddsoddi ar draws gwasanaethau'r BBC.
Defnyddio ¹⁶	BARB (data'r diwydiant teledu sy'n cael ei ddarlledu)	Mae'r grwpiau cynulleidfa sy'n cael eu cwmpasu'n cynnwys amrywiaeth o ran oedran, rhywedd, grwpiau economaidd-gymdeithasol, cenedlaethol/rhanbarthol, ethnigrwydd a grwpiau anabledd. Hefyd, rydyn ni'n disgwyl cynnwys canfyddiadau o brosiect Dovetail BARB, sy'n mesur BBC iPlayer dros gyfnod y Siarter. ¹⁷
	RAJAR (data'r diwydiant radio)	Mae'r grwpiau cynulleidfa sy'n cael eu cwmpasu'n cynnwys amrywiaeth o ran oedran, rhywedd, grwpiau economaidd-gymdeithasol, cenedlaethol/rhanbarthol, ethnigrwydd a grwpiau anabledd.
	comScore (mesur y diwydiant ar-lein)	Mae'r grwpiau cynulleidfa sy'n cael eu cwmpasu'n cynnwys amrywiaeth o ran oedran, rhywedd a grwpiau economaidd-gymdeithasol, yn ogystal â rhai mesuriadau rhanbarthol/y gwledydd.
	Data gweinydd y BBC (defnyddio BBC iPlayer a gwefan y BBC)	Mae'r wybodaeth yn seiliedig ar y porwr ar hyn o bryd, sy'n golygu nad ydy'n bosib dadansoddi yn ôl grŵp cynulleidfa. Dylai fod yn bosib dechrau dadansoddi yn ôl grŵp cynulleidfa yn ystod cyfnod y siarter.

¹⁶Mae lefelau manylion y genres sy'n cael eu darparu gan gylchrediadau'r diwydiant ynghylch defnydd yn amrywio. Mae defnydd ar-lein ComScore yn seiliedig ar URLs yn hytrach na mathau penodol o raglenni (e.e. bydd BBC News yn cynnwys nodweddion eraill heblaw am adroddiadau) ac mae ffigurau gwrandio RAJAR yn seiliedig ar slotiau amser yn unig, heb ddata am lefel y genre. Byddwn yn defnyddio ffynonellau data a gwybodaeth eraill fel data ac ymchwil y BBC ei hun, yn seiliedig ar egwyddorion craidd ein fframwaith mesur perfformiad.

¹⁷ Mae Prosiect Dovetail yn fenter dan arweiniad BARB i ddarparu mesur ar draws y diwydiannau gydag archwiliad o gyfanswm cyrhaeddiad ar draws yr holl ddyfeisiau. Am ragor o wybodaeth: <http://www.barb.co.uk/project-dovetail/>

	Mesuriadau ar draws cyfryngau'r BBC	Mae'r data yma'n bodoli, ond mae wrthi'n cael ei ddatblygu. Bydd yn cwmpasu amrywiaeth eang o grwpiau cynulleidfa.
Effaith	Traciwr Ofcom o berfformiad y BBC	Mae'r arolwg newydd hwn gan Ofcom yn cwmpasu amrywiaeth eang o grwpiau cynulleidfa gan gynnwys rhywedd, oedran, grwpiau economaidd-gymdeithasol, cyfeiriadedd rhywiol a rhanbarth/gwlad. Rydyn ni'n monitro is-grwpiau am ethnigrwydd a chrefyddau, pan fo meintiau'r sampl yn caniatáu hynny.
	Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion	Mae'r arolwg blynyddol hwn yn darparu dealltwriaeth fanwl o arferion cael gafael ar newyddion ac agweddau sy'n ymwneud â'r ffordd y mae'r BBC yn hyrwyddo diben cyhoeddus 1. Mae'n cwmpasu amrywiaeth o grwpiau cynulleidfa.
	Tracwyr llythrennedd yn y cyfryngau Ofcom	Mae tracwyr llythrennedd yn y cyfryngau blynyddol Ofcom, ar gyfer oedolion a phlant, yn rhoi rhagor o wybodaeth gyd-destunol i ategu ein traciwr perfformiad y BBC, yn arbennig o ran hyrwyddo diben cyhoeddus 2.
	Traciwr darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus Ofcom	Mae'r traciwr hwn yn darparu gwybodaeth am farn cynulleidfaeodd am sut mae sianeli teledu'r BBC yn cyflawni darlledu gwasanaeth cyhoeddus o gymharu â darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill.
Ffactorau Cyd-destunol	Amrywiol ffynonellau data (e.e. ymchwil ansoddol, casglu barn a dadansoddi cynnwys)	Mae modd defnyddio'r adnoddau hyn fel bo angen i ddarparu ymchwil ychwanegol er mwyn cael ffocws manwl, gan gynnwys grwpiau y mae'n anodd eu mesur yn feintiol.

Yn sgil yr ymatebion i'r ymgynghoriad a chynigion y BBC yn ei gynllun blynyddol interim, rydyn ni hefyd yn rhestru set sylfaenol o dystiolaeth yn y tablau isod y byddwn ni'n eu casglu bob blwyddyn (drwy gyfeirio, fel y bo'n briodol, at y ffynonellau data sydd wedi'u nodi uchod) at ddibenion monitro sut mae'r BBC yn cyflawni dibenion cyhoeddus 1, 2, 3 a 4 yn erbyn y mesurau perfformiad. Dydy'r rhestr yma ddim yn gyflawn, ac mae'n bosib y bydd yn newid dros amser.

- 2.6 Dydyn ni ddim wedi cynnwys tystiolaeth y byddwn ni'n ei chasglu yng nghyswllt ffactorau cyd-destunol yn y rhestr. Bydd hyn yn cael ei wneud ar sail ad hoc, yn ôl y ffactorau cyd-destunol sy'n berthnasol mewn blwyddyn benodol i gyflawni un neu ragor o'r dibenion cyhoeddus. Mae enghreifftiau o'r math o dystiolaeth y gallwn ni geisio ei chasglu yn y cyswllt yma yn cynnwys dadansoddi cynnwys, dadansoddiad manwl o'r gynulleidfa ac

ymchwil ansoddol ymysg cynulleidfaoedd. Mae'n bosib y byddwn ni'n edrych ar dystiolaeth ychwanegol gan y BBC hefyd (e.e. ynghylch cymryd risgiau creadigol), gan bartneriaid y BBC ym meysydd addysg, chwaraeon a diwylliant, neu farn rhanddeiliaid y diwydiant pan fo hynny'n briodol. Mae'n bosib y bydd y dulliau hyn yn cael eu defnyddio ar gyfer adolygiadau manwl neu ad hoc hefyd, ac i'n helpu ni i asesu sut mae'r BBC yn cyflawni'r amcanion lefel uchel dros gyfnod y Siarter.

Diben cyhoeddus 1: Gwybodaeth a newyddion diduedd i helpu pobl i ddeall ac ymgysylltu â'r byd o'u cwmpas

- 2.7 Yn y maes hwn o'n fframwaith mesur perfformiad, byddwn yn canolbwyntio ar newyddion cenedlaethol a rhyngwladol yn ogystal â materion cyfoes. Byddwn hefyd yn edrych ar gynnwys ffeithiol sy'n cyfrannu at gyflawni'r diben cyhoeddus yma.

Ffigur A4.3 Tystiolaeth ar gyfer monitro diben cyhoeddus 1 yn erbyn y mesurau perfformiad

Argaeledd	Oriau o raglenni sydd ar gael ar y BBC. <ul style="list-style-type: none">Mae'n cwmpasu holl wasanaethau teledu a radio'r BBC a BBC Three.Canolbwyntio ar gynnwys gwreiddiol o'r DU sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf.
	Gwariant ar allbwn ar draws gwasanaethau teledu, radio ac ar-lein y BBC.
Defnyddio	Cyrhaeddiad a'r amser sy'n cael ei dreulio ar allbwn newyddion a materion cyfoes ar draws y BBC.
Effaith	Agweddau cynulleidfaoedd at y ffordd y mae'r BBC yn darparu newyddion, gan gynnwys pwysigrwydd newyddion a gwybodaeth ddiduedd.
	Agweddau cynulleidfaoedd at y ffordd y mae'r BBC yn cyflawni o fewn cyd-destun marchnad ehangach cael gafael ar newyddion.

Diben cyhoeddus 2: dysgu ar gyfer plant a phobl ifanc yn eu harddegau

- 2.8 Yn y maes hwn o'n fframwaith perfformiad byddwn yn trafod addysg ffurfiol, gan ganolbwyntio'n benodol ar wasanaeth *Bitesize* y BBC.

Ffigur A4.4 Tystiolaeth ar gyfer monitro diben cyhoeddus 2 (1) yn erbyn y mesurau perfformiad

Argaeledd	Gwariant ar wasanaethau'r BBC sy'n darparu cynnwys addysgol i blant a phobl ifanc yn eu harddegau.
Defnyddio	Cyrhaeddiad cynnwys addysgol y BBC ymhlith plant oed ysgol a phobl ifanc yn eu harddegau.
	Munudau y mae plant oed ysgol a phobl ifanc yn eu harddegau yn eu treulio yn defnyddio cynnwys addysgol y BBC.
Effaith	Barn rhieni a phobl ifanc ar i ba raddau y mae'r BBC yn darparu allbwn sy'n cefnogi plant a phobl ifanc gyda'u haddysg.

Diben cyhoeddus 2: cefnogi dysgu ar gyfer pobl o bob oed

2.9 Yn y maes hwn o'n fframwaith mesur perfformiad byddwn yn canolbwyntio ar genres sydd fwyaf tebygol o gynnwys cynnwys addysgol anffurfiol gan gynnwys y celfyddydau, cerddoriaeth, crefydd, gwyddoniaeth, busnes a rhaglenni ffeithiol arbenigol eraill fel rhaglenni dogfen natur a hanes.

Ffigur A4.5 Tystiolaeth ar gyfer monitro diben cyhoeddus 2 yn erbyn y mesurau perfformiad

Argaeledd	Oriau o raglenni sydd ar gael ar y BBC <ul style="list-style-type: none"> • Mae'n cwmpasu holl wasanaethau teledu a radio'r BBC a BBC Three • Canolbwyntio ar gynnwys gwreiddiol o'r DU sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf
	Gwariant ar allbwn ar draws gwasanaethau teledu, radio ac ar-lein y BBC.
Defnyddio	Cyrhaeddiad a'r amser sy'n cael ei dreulio ar, y celfyddydau/cerddoriaeth/crefydd/gwyddoniaeth/busnes/materion ffeithiol arbenigol ar draws y BBC.
Effaith	Barn ac agweddau cynulleidfaoedd ar i ba raddau y mae'r BBC yn gyffredinol yn cyflawni diben cyhoeddus 2.
	Barn cynulleidfaoedd ar bwysigrwydd y diben cyhoeddus yma ar lefel gymdeithasol a phersonol.

Diben cyhoeddus 3: dangos yr allbwn a'r gwasanaethau mwyaf creadigol, unigryw ac o ansawdd uchel

2.10 Yn y maes hwn o'n fframwaith mesur perfformiad, byddwn yn edrych yn fanwl ar y ddarpariaeth deledu, radio ac ar-lein drwy BBC iPlayer a gwefan y BBC.

Ffigur A4.6 Tystiolaeth ar gyfer monitro diben cyhoeddus 3 yn erbyn y mesurau perfformiad

Argaeledd	<p>Dadansoddiad o amserlen y BBC, sy'n cwmpasu:</p> <ul style="list-style-type: none">• Cymysgedd y genres ar bob un o wasanaethau teledu/radio'r BBC a BBC Three.• Cyfran y rhaglenni gwreiddiol sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf yn erbyn rhaglenni sy'n cael eu hailddarlledu a'u prynu, yn ôl genre.• Amrywiaeth a math y cwmnïau cynhyrchu y mae'r BBC yn eu defnyddio i gomisiynu cynnwys.• Nifer y teitlau newydd a chyfran y teitlau newydd a chyfresi hir-dymor ar draws gwasanaethau teledu'r BBC. <p>Ar gyfer Radio 1 a Radio 2, dadansoddiad o restr chwarae'r BBC o ran amrywiaeth y gerddoriaeth sy'n cael ei chwarae ar draws y gwasanaethau hyn.</p>
	<p>Bydd gwariant y BBC ar gynnwys gwreiddiol o'r DU sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf, ar draws gwasanaethau teledu'r BBC yn cael ei olrhain dros amser, fel y bydd gwariant ar wasanaethau radio'r BBC a'u darpariaeth ar-lein.</p>
	<p>Cyrhaeddiad, a'r amser sy'n cael ei dreulio ar yr amrywiaeth o genres ar draws gwasanaethau teledu'r BBC. Bydd gwasanaethau radio* ac ar-lein y BBC yn cael eu monitro ar y lefel gyffredinol a bydd urls unigol yn cael eu dadansoddi ar gyfer gwasanaethau ar-lein. Bydd gwasanaethau darparwyr eraill sy'n cael eu defnyddio yn cael eu cynnwys hefyd.</p>
Effaith	<p>Barn ac agweddau cynulleidfaoedd ar i ba raddau y mae'r BBC yn cyflawni'r diben cyhoeddus yma.¹⁸</p>
	<p>Barn ac agweddau cynulleidfaoedd ar i ba raddau y mae gwasanaethau unigol y BBC yn cynnig rhywbeth nad ydy darparwyr eraill yn ei gynnig.</p>
	<p>Barn cynulleidfaoedd ar bwysigrwydd y diben cyhoeddus yma ar lefel gymdeithasol a phersonol.</p>

¹⁸ I gael rhagor o wybodaeth am y maes yma, tarwch olwg ar ein gwaith ymchwil diweddar ar natur unigryw y BBC. Ar gael yn: <https://www.ofcom.org.uk/cymru/research-and-data/tv-radio-and-on-demand/tv-research/bbc-distinctiveness-report>.

* Mae data gan RAJAR yn seiliedig ar amser yn unig, does dim gwybodaeth am lefel y genre. Bydd dadansoddiad pwrpasol yn seiliedig ar genre yn cael ei ddefnyddio lle mae hynny'n briodol.

Diben cyhoeddus 4: Gwledydd a rhanbarthau'r DU

2.11 Yn y maes hwn o'n fframwaith mesur perfformiad byddwn yn edrych ar raglenni rhwydwaith sy'n cael eu cynhyrchu ym mhob gwlad neu ranbarth yn ogystal â chynnwys y gwledydd neu ranbarthau gan gynnwys newyddion, materion cyfoes a chynnwys arall, ar draws teledu, radio ac ar-lein.

Ffigur A4. 7 Tystiolaeth ar gyfer monitro diben cyhoeddus 4 (gwledydd a rhanbarthau) yn erbyn y mesurau perfformiad

Argaeledd	<p>Cynnwys teledu rhwydwaith:</p> <ul style="list-style-type: none"> Cyfran y cynnwys rhwydwaith cymwys (fel sy'n cael ei ddiffinio yn arweiniad Ofcom ar gynyrchiadau rhanbarthol) sy'n cael ei gynhyrchu yn y gwledydd ac yn rhanbarthau Lloegr ar draws arlwy teledu'r BBC. Cyfran y gwariant perthnasol (fel sy'n cael ei ddiffinio yn arweiniad Ofcom ar gynyrchiadau rhanbarthol) ar gynnwys rhwydwaith sy'n cael ei gynhyrchu yn y gwledydd ac yn rhanbarthau Lloegr. <p>Ehangder yr oriau a'r gwariant ar draws y gwledydd a rhanbarthau Lloegr ar gyfer cynnwys radio rhwydwaith y BBC.</p>
	<p>Cynnwys teledu heb fod ar y rhwydwaith:</p> <ul style="list-style-type: none"> Oriau'r cynnwys sydd wedi'u cynhyrchu ar gyfer gwylwyr mewn gwledydd a rhanbarthau penodol ar draws BBC One, Two a gwasanaethau radio'r BBC. Gwariant ar gynnwys gwreiddiol o'r DU sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf, yn benodol ar gyfer gwylwyr yn y gwledydd a'r rhanbarthau ar draws BBC One a Two. <p>Gwariant ar wasanaethau radio lleol y BBC.</p>
Defnyddio	<p>Cyrhaeddiad a'r amser sy'n cael ei dreulio ar wasanaethau a chynnwys rhanbarthol y BBC ar draws gwledydd a rhanbarthau'r DU ar gyfer teledu, radio ac ar-lein.</p>
Effaith	<p>Barn ac agweddau cynulleidfaoedd ar i ba raddau y maen nhw'n teimlo bod y BBC yn cyflawni'r agwedd yma o'r diben cyhoeddus, ar draws gwledydd a rhanbarthau'r DU.</p>
	<p>Barn cynulleidfaoedd ar bwysigrwydd y diben cyhoeddus yma ar lefel gymdeithasol a phersonol.</p>

Diben cyhoeddus 4: Amrywiaeth

- 2.12 Yn y maes hwn o'n fframwaith perfformiad byddwn yn trafod amrywiaeth o genres. Rydyn ni'n bwriadu mesur perfformiad drwy gyfeirio at amrywiaeth yn ôl oedran, rhywedd, grŵp economaidd-gymdeithasol, anabledd, hil, crefydd a chredo, cyfeiriadedd rhywiol, lle mae hynny'n ymarferol.

Ffigur A4.8 Tystiolaeth ar gyfer monitro diben cyhoeddus 4 (amrywiaeth) yn erbyn y mesurau perfformiad

Defnyddio	<p>Cyrhaeddiad a'r amser sy'n cael ei dreulio ar wasanaethau'r BBC, yn ogystal â phroffil y gynulleidfa, ar gyfer amrywiaeth o grwpiau cynulleidfa fel oedran, rhywedd, ethnigrwydd a grŵp economaidd-gymdeithasol.</p> <p>Defnyddio data'r diwydiant gan BARB, RAJAR a comScore (gweler Ffigur A5.2) yn ogystal â data o fesuriadau ar draws cyfryngau'r BBC a thraciwr Ofcom o berfformiad y BBC.</p>
Effaith	<p>Barn ac agweddau cynulleidfaoedd ar i ba raddau y maen nhw'n teimlo bod y BBC yn cyflawni'r agwedd yma o'r diben cyhoeddus.</p> <p>O gymunedau amrywiol yn y DU, barn cynulleidfaoedd ar i ba raddau y mae'r BBC yn adlewyrchu 'pobl fel fi'.</p> <p>Safbwyntiau cynulleidfaoedd ar bwysigrwydd y diben cyhoeddus hwn ar lefel gymdeithasol a phersonol.</p>